

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 23 Mehefin 8, 2023 50c.

TRAFFERTH MEWN MYNWENT – A CHYMORTH O'R BWYTY!

Mae'r stori hon yn tystio pa mor beryglus y gall tramwyo hen fynwentydd fod, a gwerth amhrisiadwy ffôn symudol pan mae rhywun yn mynd i drafferth. Braf dweud bod diwedd hapus i'r hanes. Geraint Tudur yw 'gohebydd arbennig' *Y Tyst*.

Dychryn i lawer ohonom sy'n dilyn hynt a helynt ein gilydd ar Facebook oedd darllen am brofiad brawychus Menna Lloyd Williams, Penrhyn-coch, cyn-aelod o dîm golygyddol *Y Tyst*, ym mynwent Eglwys Santes Gwenfaen, Rhoscolyn ar Ynys Môn, yn ddiweddar.

Yno, meddai, y claddwyd hen-daidd, hen-nain a hen ewythr iddi, a'i bwriad wrth fynd yno oedd glanhau'r cerrig beddau. Fodd bynnag, syrthiodd 'yn glewt' rhwng y beddau, a methu â chodi. Ceisiodd lusgo ei hun i fyny trwy afael mewn hen garreg fedd oedd yn ymddangos yn weddol gadarn, ond syrthio yn ôl fu ei hanes er gwaethaf pob ymdrech. Bu'n gweiddi am help, ond i ddim pwrpas; nid oedd neb yno i'w chlywed.

Samariaid Trugarog yr Eryr Wen

Ffonio perthnasau lleol ar ei ffôn symudol wedyn, a diolch ei bod wedi mynd a'r ffôn gyda hi y diwrnod hwnnw, rhywbeth nad yw'n ei wneud bob amser. Ond hir pob aros hyd yn oed wedyn, a dechreuodd feddwl nad oedd ei pherthnasau byth am gyrraedd! O edrych o'i chwmpas, gweld bwyty'r White Eagle ar draws y caeau. Llwyddodd i ffonio hwnnw, ac esbonio yn union ble yr oedd a beth oedd wedi digwydd. Ymhen ychydig, ymddangosodd tri o staff y bwyty – y *chef* a dwy o'r merched – a'r *chef* yn cario cadair iddi gael eistedd arni, a photel o ddŵr a dogn o siwgr i'w hadfywio, cyn cynnig mynd â hi i'r ysbyty.



eich bag pan fyddwch yn mynd i grwydro. Ni wyddoch pa bryd y byddwch ei angen, na pha bryd y gall, mewn sefyllfa ddifrifol, fod yn fodd i achub eich bywyd!

Dod dros y profiad

Ymddangosodd ei pherthnasau hwythau foment yn ddiweddarach, ac wedi byr amser, yr oedd Menna wedi dod dros ei braw a'i dychryn ac yn abl i gerdded o'r fynwent.

Er bod diwedd hapus i'r stori, mae yma wers hefyd; os oes gennych ffôn symudol, cariwch ef yn eich poced neu

GOFALAETH BRO MORGANNWG

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn diwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel Penarth.

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries, ysgrifenyddes Bethel.

Ffôn: 02920 700272

Symudol: 07891 587373

E-bost: alwenaharries@gmail.com

EGLWYS YR ANNIBYNWYR CAPEL COFFA, CYFFORDD LLANDUDNO

Ers rhai blynnyddoedd bellach mae Capel Coffa wedi bod o dan weinidogaeth ran amser. Gydag ymddeoliad y gweinidog presennol ym mis Medi, dymuniad yr aelodau yw parhau gyda trefniant tebyg i'r dyfodol.

Gwahoddir gweinidogion o unrhyw enwad i ystyried yr her a'r cyfle a estynnir iddynt drwy fugeilio yr eglwys hon.

Am fanylion pellach cysyllter â chadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol:

Mrs Carol Edwards,
Dwyfor, 12 Lôn Goed,
Cyffordd Llandudno,
Conwy LL31 9HE.

Ffôn: 01492 581082

E-bost: carol.tanyberllan@yahoo.co.uk

Arloesi a Buddsoddi

Rhaglen
Undeb yr
Annibynwyr
Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn – hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Cysylltwch â Tŷ John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

Penderfyniadau

Dyma'r penderfyniadau fydd yn cael eu cynnig ger bron cynhadledd cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr 2023.

1. Gwarchod hawliau dynol

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn datgan yn ddiamwys bod yr hawl i brotestio'n ddi-drais yn gonglfaen sylfaenol i unrhyw gymdeithas ddemocrataidd. Trwy'r fath brotestio yma yng Nghymru y llwyddwyd i sicrhau statws a dyfodol i'n hiaith a'n diwylliant – o arwyddion ffyrdd dwyieithog i S4C.

Rydym yn gresynu bod llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi pasio cyfreithiau newydd sy'n cyfyngu'n sylweddol ar yr hawl i brotestio trwy rymuso pwerau'r heddlu a rhoi'r hawl i'r llysoedd i gosbi protestwyr yn llym.

Cyfeiriwn at Ddeddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd (2022) a'r Ddeddf Drefn Gyhoeddus (2023). Mae'r cyfreithiau hyn y rhoi'r hawl i'r heddlu arestio person ar fypwy – nid yn unig am waeddi slogan neu ddal poster, ond ar amheuaeth fod y person yna, o bosib, yn mynd i brotest. Fe all 'cynllwynio' i drefnu protest bellach fod yn drosedd.

Credwn fod y deddfau'n newid y berthynas rhwng y wladwriaeth a'i ddinasyddion, ac ystyriwn eu bod yn gamau peryglus sy'n erydu'r hawl i fynegi barn ac i ymgychu dros faterion o gonsym gwirioneddol mewn cymdeithas, yn ein gwlad ac yn y byd.

Rydym yn rhagweld y bydd pobol yn ofni brotestio'n ddi-drais, rhag ofn iddynt gael dirwy drom neu garchar. O dan y deddfau newydd, fe allai person gael cynnod hirach o garchar am ymosod ar gerflun nac am ymosod ar berson arall. Petai'r deddfau yma'n bod bryd hynny, byddai aelodau Cymdeithas yr Iaith a brotestiodd trwy rwystru'r traffig ar bont Trefechan wedi wynebu cynnod mewn carchar am 'achosi niwsans cyhoeddus.' Sylwn fod y diffiniad cyfreithiol o beth sy'n 'niwsans neu'n aflonyddwch cyhoeddus' yn un eang iawn, gan gynnwys y swm allai gael ei gynhyrchu gan brotest.

Cytunwn â barn llawer bod y deddfau hyn yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Erthygl 10 ac 11) sy'n gwarchod y rhyddid i fynegi barn a'r hawl i ymgynnull. Nodwn fod Volker Türk, Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol, wedi dweud bod y deddfau newydd 'yn anghydnaws â rhwymedigaeth ryngwladol y DU ynghylch hawliau pobl i ryddid mynegiant a chynulliad heddychlon.' Ychwanegodd eu bod yn 'gosod sancsiynau troseddol diangen ac anghymesur ar bobl sy'n trefnu neu'n cymryd rhan mewn protestiadau heddychlon.'

O ystyried hyn oll, mae'r Undeb yn cytuno y dylid:

- Pwyso ar unrhyw lywodraeth newydd allai ddod i rym ar ôl Etholiad Cyffredinol i ddiddymu'r deddfau hyn ar fyrder;
- Annog yr heddlu i fod yn ofalus iawn am sut y maent yn defnyddio'r pwerau newydd;
- Annog y llysoedd i gydnabod yr hawl i brotestio'n heddychol trwy beidio â bod yn llawdrwm ar ddiffynyddion.

Cynigydd: Alun Lenny

Eilydd: Parchg Emyr Gwyn Evans
Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Gorrlewin Caerfyrddin

2. Trafodaeth gydenwadol ar werthiant eiddo

Yr ydym fel eglwysi Cyfundeb Annibynwyr Meirion yn galw ar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gydweithio ar fyrder gyda'r enwadau anghydfurfiol eraill yng Nghymru i ddwyn perswâd ar y Comisiwn Elusennau i dderbyn nad y pris uchaf o reidrwydd sydd i gael ei dderbyn wrth i adeiladau perthynol i eglwys gael eu rhoi ar y farchnad, ond ei bod yn iawn rhoi sylw i fanylion gweithredoedd yr eglwys a gweithredu yn unol â dymuniad yr aelodau presennol.

Cynigydd: Parchg Euron Hughes

Eilydd: Ifan Alun Puw

Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Meirion

3. Cenhadu

Yn ystod yr argyfwng ysbrydol difrifol sy'n digwydd ar hyn o bryd o'n cwmpas ac yn ein plith, ac sy'n debygol o waethygu yn ystod y blynyddoedd nesaf, hoffem annog Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a'r holl eglwysi, i weithredu ar fyrder trwy:

- weddio'n daer ar i'r Arglwydd drugarhau wrth genedl y Cymry
- ymbil am dywalltiad adnewyddol o'r Ysbryd Glân fydd yn dod a phobl newydd i ffydd yn Iesu Grist ac yn codi to newydd o arweinyddion ifanc
- ymroi, ar lawr gwlad, i genhadu'n lleol, gan sicrhau mai lledaenu'r Efyngyl sy'n cael y flaenoriaeth yn ein holl weithgarwch
- barhau i annog cenhadu, a chynnal breichiau ein gilydd yn y gweithgarwch hwnnw, fel sydd eisoes yn digwydd drwy'r cynllun Arloesi a Buddsoddi.

Cynigydd: Parchg Iwan Llewelyn Jones,
Borth-y-gest

Eilydd: Parchg Ddr Alun Tudur, Caerdydd
Cyflwynir y cynnig fel aelodau personol

Eglwys Brynteg yn croesawu ac yn diolch

Ar ôl 139 o flynyddoedd, daeth aelodau eglwys Bethel, Drefach, Llanybydder i'r penderfyniad anodd 'nôl yn 2019 fod yr amser wedi dod i ddatgorffori'r eglwys a daeth y broses i ben yn swyddogol ym Mehefin 2023. Er mai trist yw gweld aelodaeth ein heglwysi'n lleihau a'r drysau'n gorfod cau, ymfalchiwn fod nifer o aelodau Bethel wedi mabwysiadu eglwys Brynteg, Llanwenog fel eu cartref ysbrydol ac iddynt ddod yn aelodau yma. Gwerthfawrogir yn fawr hefyd fod cronfa ariannol Bethel wedi ei throsglwyddo, yn ei chyfarwydd i eglwys Annibynnol Brynteg.

Er bod y drws bellach ynghau, mae'r atgofion yn parhau ac mae geiriau Gillian Jones, a oedd yn un o ymddiriedolwyr Bethel, yn crynhoi ei theimladau hi i'r dim, a theimladau nifer i un arall hefyd mae'n siŵr:

A ninnau yma yng nghanol ein briw

Mae'r drws wedi'i gloi ond mae'r Gair yn fyw.

Catrin Bellamy-Jones
(Ysgrifennydd eglwys Brynteg)



Mr David Davies, trysorydd eglwys Brynteg yn derbyn sicc o law Mrs Jane Jones, trysorydd eglwys Bethel. Hefyd yn y llun mae gweinidog eglwys Brynteg, y Parchedig Chris Bolton (rhes gefn, cyntaf ar y chwith) ynghyd â swyddogion ac aelodau'r ddwy eglwys

Yr Adran Gydenwadol

Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant – yn Hwngari

Aled Davies sy'n rhannu ei argraffiadau o gynhadledd ar waith plant yn Hwngari yn ddiweddar

Bob tair blynedd mae cynhadledd yr ECCE (European Conference on Christian Education) yn cyfarfod yn rhywle ar gyfandir Ewrop i drafod gweinidogaeth i blant. Eleni, ar ddechrau mis Mai, canolfan ar lan llyn Balaton yn Hwngari oedd y man cyfarfod, lle daeth tua 60 o gynrychiolwyr o 16 o wledydd ynghyd am wythnos. Yn Berlin yr oedd y gynhadledd yn 2019, ac wedi colli blwyddyn dros gyfnod y clo, daeth cyfle dros y ddwy flynedd ddilynol i gyfarfod dros Zoom.

Wrth gynllunio ar gyfer y gynhadledd eleni, yr un oedd y gri o bob gwlad – yr angen i gael trafodaeth ddeallus ar sut i ddelio â'r argyfwng ym maes cenhadaeth a gweinidogaeth i blant, a sut orau i aildanio ac ailgydio mewn gwaith sy'n berthnasol ac yn gyfoes. Yr un oedd yr hanes yn gyffredinol o bob un gwlad: yn dilyn cyfnod y pandemig a'r newid cymdeithasol yn sgil hynny, gwelwyd lleihad yn nifer y teuluoedd a phlant sy'n mynychu gwasanaethau ar y Sul yn ogystal â gweithgaredd plant. Nodwyd bod nifer y bedyddiadau wedi gostwng, a bod llawer bellach wedi dewis ymbellhau oddi wrth yr eglwys. Dewiswyd 'Tyfu trwy'r argyfwng er mwyn aildanio'n gweinidogaeth i blant' fel thema ar gyfer yr wythnos, gan roi cyfle i'n herio i aildychmygu a breuddwydio am y posibiladau!

Saesneg oedd prif iaith y gynhadledd, gyda chyfieithu llawer o'r seminarau i'r Ffraneg a'r Almaeneg hefyd. Un elfen bwysig oedd ceisio dod i ddeall rhywfaint am y sefyllfa leol yn Hwngari, a chafwyd noson yng nghwmni'r Archegob Lwtheraidd, a rannodd am waith yr eglwys yn y wlad a'r cydweithio rhwng y gwahanol draddodiadau Cristnogol.



Aled Davies wrth y bwrdd cofrestru



Y rhai fynychodd y gynhadledd

Bob bore, wedi cyfnod o addoliad cafwyd astudiaeth Feiblaidd greadigol, a hynny dan arweiniad y storiwr Bob Hartman, awdur llawer o lyfrau stori Beiblaidd i blant, gan gynnwys cynllun Agor y Llyfr. Mae Cyhoeddiadau'r Gair wedi cyfieithu chwech o lyfrau Bob dros y blynyddoedd, gan gynnwys *Beibl Newydd y Storiwr* a *Beibl Newydd y Teulu*. A ninnau wedi ein lleoli ar lan llyn, aeth â ni i faes mentro mewn ffydd a bod yn barod i daflu ein rhywidi i'r ochr draw, ufudd-dod yn hanes galw'r disgyblion, pwysigrwydd cadw ein golwg ar Iesu wrth gofio am y storm ar y llyn, a diffyg ffydd Pedr wrth gerdded at Iesu.

Cafwyd darlithoedd ar fywyd teuluol a lletygarwch, diogelwch ac amddiffyn plant, a mentrau cenhadol newydd. Roedd dewis o 14 gweithdy, gyda chynrychiolwyr yn rhannu syniadau ac arfer da o fewn eu gwledydd. Dros y blynyddoedd rhannwyd llawer gennym ni fel grŵp o Brydain, a braf gweld gwledydd eraill erbyn hyn wedi mabwysiadu llawer o'r syniadau hynny. Bob tro hefyd bydd gennym 'farchnad', lle mae cyfle i bawb arddangos adnoddau cynhenid o'u gwlad. Bydd llawer yn elwa o'r cyfle i rannu a chyfieithu'r cynnyrch hwn bob tro byddwn yn cyfarfod.

Roeddem yn cyfarfod mewn grwpiau bychain hefyd i drafod, gan glywed lleisiau gwahanol o dros Ewrop. Un uchafbwynt personol i mi oedd y cyfle i gysylltu â Vitali, gweinidog yn Wcráin oedd gyda ni yn Berlin bedair blynedd yn ôl, ond yn methu gadael ei wlad i ymuno â ni y tro yma. Soniodd yntau fod gwaith yr eglwys i'n parhau, a bod ei grŵp ieuencdd ef wedi dyblu i dros 50, er gwaetha'r ffaith fod nifer yr oedolion wedi haneru wrth i bobl ffoi a chael eu galw i wasanaethu yn y fyddin. Cafwyd cyfle i

gydsefyll a gweddio dros heddwch yn y wlad, a phawb dan emosiwn wrth sgwrsio â Vitali yn Kyiv.

Bu cyfle i ymlacio a chymdeithasu hefyd. Cawsom fynd am fordaith ar draws y llyn, a chroesawu dawnsywyr a band gwerin atom gyda'r nos. Braf oedd gweld pawb yn uno yn y canu a'r dawnsio.

Fe fydd ambell un yn holi a oes gwerth mewn cynhadledd fel hon. Weithiau, mae'n anodd rhoi mewn brawddegau beth oedd y budd neu'r gwerth o fynychu, lle nad yw hynny'n arwain yn uniongyrchol at fabwysiadu cynllun neu adnodd newydd. Yn fy hanes i, mae'n debyg mai'r prif ysgogiad i fod yn rhan o'r gynhadledd oedd cael cwmni a chymdeithas pobl yn yr un maes gwaith. Wrth ddechrau adfyfrio a dadbacio'r oll a welwyd ac a glywyd, mae'n debyg mai anogaeth a symbyliad i ddyfalbarhau oedd y budd mwyaf. Wedi tair blynedd o fod yn dyst i waith plant yn crebachu ac yn dirwyn i ben mewn sawl achos, bu'n ysbrydoliaeth unwaith eto i gael ein hatgoffa pwy bia'r gwaith, a pam rydym yn ymroi i'r weinidogaeth arbennig hon.

Pa effaith gafodd yr amser ar fy ngwaith yng Nghymru? Fe fydd ail erthygl yn *Cenn@d* yn fuan yn gyfle imi geisio rhannu ychydig ar hynny. Eisoes mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer 2026, wedi i ni dderbyn gwahoddiad gan Gyngor Eglwys Genefa yn y Swistir i ymweld â dinas John Calfin a'r diwygiad Protestannaidd. Yn y cyfnod rhwng cynadledau Berlin a Balaton profwyd effaith pandemig byd-eang, argyfwng economaidd a rhyfela ar gyfandir Ewrop. Tybed beth fydd ein hanes dros y tair blynedd nesaf?

Eglwysi yw Archarwyr Datblygiad Rhyngwladol

Gan Ruth Valerio, Cyfarwyddwr Eiriolaeth a Dylanwadu Rhyngwladol Tearfund
Cyfieithiad gan Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru

Moyn rhoi i achosion elusennol tramor, ond ddim yn siŵr beth yw'r ffordd orau? Buddsoddwch yn yr eglwys leol, meddai Ruth Valerio. Nhw yw archarwyr datblygiad rhyngwladol – a dyma'r ffigyrau sy'n profi hyn.

Trwy weithio i Tearfund mae gennyf olwg breintiedig o'r eglwys ryngwladol. Ond, rai wythnosau yn ôl, dangosodd astudiaeth pa mor fuddiol y gall eglwys fod i'w chymuned leol.

Mae'r Eglwys mewn man i ysbrydoli newid sy'n trawsnewid cymunedau ac yn grymuso pobl i ffynnu. Mae gan yr Eglwys y potensial i helpu pobl i gael eu rhyddhau o dlodi – tlodi ysbrydol a chorfforol. Yn rhyngwladol mae'r Eglwys yn rymus pan ddown at ddatblygiad rhyngwladol – mae'r Eglwys mewn man arbennig i daclo rhai o argyfyngau mwyaf y byd.

Eglwys ymarferol

Yn ddiweddar siaradodd ymchwilwyr â miloedd o bobl o Rwanda, Sierra Leone, Tanzania a Zimbabwe. Darganfuwyd bod buddsoddi mewn eglwysi lleol yn ffordd gost-effeithiol o helpu cymunedau i'w codi eu hunain allan o dlodi.

Darganfu'r ymchwil yma fod pob £1 sy'n cael ei buddsoddi yn yr eglwys leol mewn gwledydd incwm isel yn dod â £28 o werth cymunedol. Dyna ganlyniad anhygoel! Yn enwedig wrth ystyried ein bod ni'n sôn am fywydau pobl yn rhai o ardaloedd tlotaf y byd.

Eglwys sy'n llawn pwrpas

Trwy brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan eglwysi lleol, mae'r adroddiad diweddar hefyd yn dangos trawsnewid ac effaith amlwg. Mae gan deuluoedd ddigon o fwyd i'w fwyta wedi iddyn nhw ddsygu technegau ffermio newydd. Mae plant yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd bod eu rhieni'n gallu ennill bywoliaeth. Mae cymunedau yn derbyn hyfforddiant ar sut i redeg grwpiau cynilo, yn cael addysg fel eu bod yn gallu adeiladu canolfannau iechyd a chronfeydd dŵr glân.

Mae merched a gwragedd yn cael eu rhyddhau o orfod cerdded milltiroedd y dydd i gasglu dŵr.

Mae yna newidiadau eraill hefyd, sy'n dal yr un mor bwysig.

Mae pobl yn y cymunedau lle mae'r eglwysi yn gweithio yn adrodd bod gan y cymunedau fwy o obaith a mwy o ddygnwch. Mae gwaith heddwch wedi adfer perthnasau o fewn teuluoedd a



Llun: Tearfund

rhwng cymdogion sydd, yn ei dro, wedi creu amgylchedd mwy diogel sy'n hybu twf economaidd.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr effeithiau hyn yn bellgyrhaeddol ac yn cyffwrdd y gymdeithas ehangach. Gwelodd pobl na fu'n rhan uniongyrchol o raglen eglwys welliannau ym mhob ffordd, bron, y gellid mesur llesiant.

Eglwys bwerus

Grym yr eglwys yw ei bod hi'n gallu ymateb mewn modd gwahanol iawn i'r modd y mae cymorth dyngarol fel arfer yn gweithio.

Mae'r Eglwys, yn ei hanfod, yn fan o drawsnewidiad llwyr. Yn hytrach nag ymateb i'r symptomau yn unig – tlodi, newyn, gwrthdaro, diffyg adnoddau meddygol – trwy ddarparu bwyd neu ganolfannau iechyd, er enghraifft, mae'r Eglwys yn gallu cynnig newid go iawn, newid llwyr a hirdymor. Grymusir pobl i ganfod atebion ymarferol eu hunain.

Canlyniad hyn yw newid materol a newid o ran gobaith – newid sy'n ysbrydoli eraill ac sy'n trawsnewid cymunedau mewn modd sy'n ddirchafol, yn gynaliadwy ac yn adfer urddas. Newid sy'n dod â digon o fwyd. Canolfan iechyd newydd. Ysgol. Dulliau newydd o greu incwm.

Potensial i dyfu

Mae Beatrice yn byw yn Rwanda ac yn fam i bedwar. Trwy weithio â'i heglwys lleol mae'n dweud ei bod hi wedi ei chyffwrdd gan y gwersi trawsnewidiol – er enghraifft, asesu ei hanghenion a photensial yr adnoddau sydd yn y gymuned: "Ry ni'n sylweddoli bod cydweithio'n ein helpu.

Mi wnes i ddechrau meddwl am gynllun i ddatblygu fy nheulu ac ymuno â grŵp hunan-gymorth. Dechreuon ni arbed arian bob wythnos mewn grŵp o 20 o aelodau. Roedd hi'n anodd i ddechrau, ond roedd eraill yn fy annog."

Yn y pen draw, gyda llog gan y grŵp hunan-gymorth yr oedd yn rhan ohono, dechreuodd Beatrice fusnes bach ei hun yn gwerthu bwyd yn y farchnad. Galluogodd hyn hi i brynu gafr a buwch, a dechrau rhentu tir er mwyn plannu reis.

"Eleni, rwy'n disgwyl cynhaeaf braf. Rwy'n teimlo'n hyderus oherwydd dwi'n gallu cefnogi eraill ac rwy'n ddynes â pharch yn y gymuned ac yn fy nheulu. Mae gennyf ni ddigon o fwyd i fwydo'n plant ac i dalu eu ffioedd ysgol. Dydyn ni ddim bellach yn gweithio i unrhyw un arall gan fod gennyf ein busnes ein hunain. Gallwn gyfrannu pan fo angen i roi cymorth i bobl fregus. Mae gennyf gynllun i ddatblygu fy musnes ac ennill rhagor o arian yn y dyfodol. Mae gennyf deulu hapus."

Dyma drawsnewidiad llwyr iddi ac i'r gymuned.

A'r eglwys sydd yn y canol, yn dod â'r newydd da.

Gallwch gyfrannu at a chefnogi gwaith Tearfund trwy ymweld â'r tudalen <https://www.justgiving.com/page/cycleclubdetearfund> neu sganio'r cod QR yma



Bu Cynan a chefnogwyr eraill Tearfund yn beicio'r Carten100 gan godi arian tuag at waith CCT (Church and Community Transformation) Tearfund.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

27 Cwestiynau Abraham (Rhan 1)

Darllen: Genesis 18:22–33

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 108)

Mae'r adnodau hyn yn gyfarwydd i lawer ohonoch, rwy'n tybio, ac yn wir maent yn adnodau yr wyf wedi dychwelyd atynt droeon wrth bregethu neu arwain seiati. Yn gyffredinol rwyf wedi canolbwyntio ar 'eiriolaeth Abraham', ac mi edrychwn ar hynny yr wythnos nesaf. Y tro hwn, rwyf am ganolbwyntio ar gymhellid Abraham yn fwy gyffredinol, yn benodol, ei ymgais i ddeall gyweithgarwch Duw, a hynny'n dilyn y ffaith i'r Arglwydd rannu ag ef yn adnodau 17–21 ei fod yn mynd i olwg Sodom a Gomorra.

Er nad wyf yn cofio'n dda iawn, rwy'n amau fod yr hyn a ddysgwyd imi am y digwyddiad hwn, fel digwyddiadau eraill yn yr Hen Destament, yn y gwersi Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn arwynebol a rhwydd iawn. Roedd esbonio hanes y dinasoedd yma yn syrthio o fewn y diffiniad yna o ddealltwriaeth gyntefig o Dduw, a hynny wedi ei sylfaenu ar gred fod y datguddiad o Dduw yn rhywbeth sy'n oddrychol, hynny yw, nid datguddiad yn gymaint â chanfyddiad. Dros y blynyddoedd a'r canrifoedd mae pwy yw Duw yn newid wrth i ni ganfod mwy, deall yn well. Fel arfer, mae hyn yn gorffen ag ymadrodd tebyg i – nawr mae ein canfyddiad o Dduw wedi ei drawsnewid gyda dyfodiad Iesu a dysgeidiaeth y Testament Newydd. Dethol iawn yw lladmereddion y ddamcaniaeth yma am ddysgeidiaeth y Testament Newydd, gan osgoi geiriau Iesu mewn manau, fel yr esboniad ar ddameg y chwyn yn Mathew 13:41–2 a dameg y rhwyd yn Mathew 13:49–50. Felly, hefyd ddysgeidiaeth yr apostolion, ac yna'r datguddiad y mae loan, y disgybl annwyl, yn ei rannu. Yn llyfr y Datguddiad 19:1–2, yn dilyn golwg ar y modd y mae Duw yn gweinyddu barn gyfiawn ar ddiwedd amser,

clywir tyrfa'r nefoedd yn moli: 'yn dweud: "Halelwia! Eiddo ein Duw ni y waredigaeth a'r gogoniant a'r gallu, oherwydd gwir a chyfiawn yw ei farnedigaethau ef".'

O ddod at adnodau heddiw, sylwch ar yr hyn y mae Abraham yn ei gyffesu am Dduw yn adnod 25, 'Na ato Duw! Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn?' Gwyddom yn dda fod y datguddiad o Dduw yn rhywbeth graddol yn y Beibl, a hefyd ei fod yn cyrraedd ei benllanw yn yr Un a gyhoeddodd, 'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad' (loan 14:9). I'r awdur at yr Hebraid, 'yn y dyddiau olaf hyn llefarodd wrthym ni mewn Mab. ... Ef yw disgleirdeb gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd ef arno' (Hebraid 1:1,3). Rydym yn deall hefyd fod yna lawer yn yr Hen Destament sy'n cael ei ddileu gyda dyfodiad Iesu; er enghraifft, mae'r gyfraith a'r deddfau seremonïol, system aberthau a gweinyddiad y deml yn cael eu cyflawni unwaith ac am byth yn Iesu, yr un aberth sy'n sylwedd yr holl aberthau, y gwir deml sy'n agor ffordd i bresenoldeb Duw.

Yr hyn sydd ddim yn cael ei ddileu yw'r gyfraith foisol, cyfraith sy'n llifo o gymeriad a chyfiawnder perffaith Duw. Er bod gras yn delio â chondemniad y gyfraith, nid trwydded i anwybyddu'r gyfraith yw hynny, neu i gondemnio'r gyfraith foisol yn hanes. Mae Paul, yn y llythyr at y Rhufeiniaid 6:15, yn gosod hyn allan yn glir, 'A ydym i ymroi i bechu, am nad ydym dan deyrnasiad cyfraith, ond dan deyrnasiad gras? Ddim ar unrhyw gyfrif!' Ac felly Iesu hefyd ar ddechrau'r bregeth ar y mynydd, 'Peidiwch â thybio i mi ddod i ddileu'r Gyfraith na'r proffwydi; ni ddeuthum i ddileu ond i gyflawni. Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd' (Mathew 5:17–18).

Yn canlyn hyn, peth arall sydd ddim yn cael ei ddileu na'i newid yw pwy yw Duw. Roedd Abraham am gyffesu rhywbeth sy'n anghyfnawidiol am Dduw. Yng nghyfieithiad Beibl.net o'r cymal yn adnod 25 cawn: 'Onid ydy Barnwr y byd yn gwneud beth

sy'n iawn?' Iddo ef, roedd dealltwriaeth o'r Duw sy'n mynd i sicrhau cyfiawnder yn y diwedd yn aneglur, ac i raddau mae hyn yn wir drwy'r Hen Destament. Mae yna awydd i weld yn awr farn gyfiawn, i weld hyn o fewn ffiniau amser. Ond sylwch ar y gwahaniaeth rhwng man cychwyn Abraham a'r hyn rydym ni'n gyfarwydd ag ef. Mae Abraham yn cyffesu pwy yw Duw ac yna'n ceisio deall sut mae hynny i'w weld ar waith mewn byd o amser. Byddwn ni yn aml yn dechrau o le cwbl wahanol, hynny yw, yn gweld beth sy'n digwydd ac yna'n ceisio holi neu ddychmygu sut yn yw Duw o'r amgylchiadau hynny. Rhyfedd hynny i Gristnogion, gan fod eu Harglwydd wedi eu dysgu fod rhywbeth yn gyffredin am brofiadau ac amgylchiadau'r cyfiawn a'r anghyfiawn yn y byd yma. (Gweler e.e. Mathew 5:45: 'oherwydd y mae ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn.')

Mae Abraham, yn arbennig yng nghydestun gweddill pennod 18 ac yn arbennig pennod 19, am wybod i sicrwydd fod ei Dduw, y Duw cyfiawn, yn gweithredu barn gyfiawn. Yn hyn, mae'n cael gwybod mai ewyllys Duw yw cadw pobl, ac yn wir fod presenoldeb ychydig iawn o'i bobl fel halen neu lefain yn medru diogelu hyd yn oed pobl sy'n gwrthod Duw ac yn gwrthryfela yn ei erbyn. Ychydig iawn o halen sydd ei angen i roi blas, i buro. O'r miloedd oedd yn byw ar drefi'r gwastadedd, meddai Duw, 'Ni ddinistriaf hi er mwyn y deg'.


1. 'Cyflawnder datguddiad a gawn yn Iesu, nid datguddiad sy'n gwrth-ddweud yr hyn a ddatguddiwyd eisoes.' Yng ngoleuni'r adnodau o Mathew 13 uchod (yr ail baragraff), trafodwch y gosodiad hwn.
2. O ystyried eich bywyd personol, i ba raddau y byddwch yn anfoddog i dderbyn y bydd Duw yn sicrhau cyfiawnder 'yn y diwedd'?
3. Beth mae'r adnodau hyn yn ei ddweud wrthym am bwysigrwydd yr Eglwys yn y gymuned, y pentref, y dref, y ddinas, y byd?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 11 Mehefin, am 7.30yh

Mehefin 11 – Emynwyr Tregaron

Ryland Teifi sy'n cyflwyno gwledd o ganu mawl o Gapel Bwlchgwynt, Tregaron. Bydd Delyth Hopkins Evans yn arwain emynau gan rai o feirdd a cherddorion y fro. A chawn fwynhau perfformiadau swynol gan ddwy gantores dalentog o Geredigion, Sara Davies a Gwawr Edwards.



Caniadaeth y Cysegr
Sul, 11 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp

Teulu: 1 – Euros Rhys yn cyflwyno'r rhaglen gyntaf mewn cyfes fer am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

Sul, 11 Mehefin, am 12:00yp
Oedfa dan ofal Jenny Garrad, Llanidloes

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddwr *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

CYSTENNIN FAWR: Y DYN WNAETH WYRDROI CRISTNOGAETH?

Yr Ymerawdwr Cystennin sy'n cael sylw **Alun Lenny** yn yr erthygl hon o gyfres i'r Tyst am ddarnau arian hynafol o'i eiddo sy'n dwyn i gof bobl a digwyddiadau allweddol yn hanes Cristnogaeth. Cystennin oedd yr 'Ymerawdwr Cristnogol' cyntaf: sefydlwr swyddogol ein dydd Sul a dydd Nadolig, hyrwyddwr arwydd y groes fel symbol Cristnogol, a'r un a roddodd ddiwedd ar erlid Cristnogion. Ond i ba raddau y cafodd Cristnogaeth ei llygru drwy rannu'r un gwely â'r wladwriaeth?



Diwedd erledigaeth greulon

Yn y flwyddyn 306 yng Nghaerefrog, yn dilyn marwolaeth ei dad yr ymerawdwr Rhufeinig Constantius, cafodd Constantinus (Cystennin) ei gyhoeddi'n ymerawdwr gan y fyddin. Dyma'r dyn fyddai'n gadael y stamp mwyaf erioed ar drefn yr eglwys Gristnogol. Trwy gydnabod a hyrwyddo Cristnogaeth fe agorodd Cystennin y drws i droi'r Eglwys Fore yn Eglwys Ymerodrol. Roedd yn rhyddhad i Gristnogion a ddiweddfodd erledigaeth greulon yn nyddiau'r ymerawdwr Diocletian, ond cafodd natur Cristnogaeth ei wyrdroi'n sylweddol trwy

blethu crefydd â'r wladwriaeth - trefn sy'n groes i'n cred ni fel Annibynwyr, gan ei fod yn golygu cyfaddawdu â llywodraethau a brenhinoedd daearol.

Sefydlu dydd Sul

Yn ôl traddodiad cafodd Cystennin dröedigaeth ar drothwy ei fuddugoliaeth ym mrwydr fawr Pont Milvius ar gyrion Rhufain yn 312. Dywedwyd iddo weld arwydd y groes uwchben yr haul, a'r geiriau 'Gorchfyga drwy'r arwydd hwn.' Mae'r cyfuniad o'r groes a'r haul yn allweddol, gan fod Cystennin yn addoli'r duw *Sol Invictus* - 'yr haul anorchfygol.' Trwy orchymyn Cystennin y neilltuwyd dydd Sol, sef dydd Sul a Sun-day, yn ddiwrnod o orffwys gorfodol i bob dinesydd Rhufeinig, ar wahân i amaethwyr. Roedd hi'n gyfleus mai'r diwrnod hwnnw oedd 'diwrnod yr Arglwydd' i'r Cristnogion cynnar eisoes.

Clymwyd dyddiad geni Iesu hefyd wrth wyl y *Sol Invictus*, gŵyl baganaidd i ddatlu 'atgyfodiad' yr haul dridiau ar ôl ei 'farw' ar ddydd byrraf y flwyddyn. Mae'r darn arian sydd gennyf i, a fathwyd yn Llundain yn 313-16, yn dyst i'r briodas yma. Ar un ochr mae'r ddelwedd o Cystennin o'r cyfnod ar ôl ei 'dröedigaeth,' ac ar yr ochr arall delwedd o'r *Sol* paganaidd. Mae'r darn arian bychan yma'n dweud stori fawr.

Nicea: gorfodi uniongredd

Fe wnaeth Cystennin alw cyngor eciwmenaidd cyntaf yr eglwys Gristnogol yn Nicea, sydd nawr yn Nhwrci, yn y flwyddyn 325, gan lywyddi'r cyfarfod ble roedd dros 300 o esgobion yn bresennol. Yn ei waith *Buchedd Cystennin* dywed yr hanesydd, y diwinydd a'r esgob Eusebius, fod yr ymerawdwr wedi 'gorymdeithio trwy ganol y cynulliad, fel rhyw negesydd nefol oddi wrth Dduw, mewn gwisgoedd a dywynnient fel petai nhw'n belydrau o olau, gyda'i glogyn porffor wedi'i addurno ag aur a gemau gwerthfawr ... Yr oedd yn rhagori ar bawb yno o ran ei daltra a phrydferthwch ei lun, yn ogystal ag urddas mawreddog ei wedd, ei nerth anorchfygol a'i egni.' Ac eto, roedd yn ddigon gwylaidd i 'ddisgwyl i'r esgobion amneidid arno' cyn eistedd ar ei gadair isel o aur coeth! Roedd Cystennin yn awyddus i gael cytundeb a gorfodi uniongredd Cristnogol - cyflwr nad oedd yn bodoli cyn hynny - tra'i fod yn dal i arddel crefydd baganaidd ar yr un pryd. Bu'r cyngor yn canolbwyntio ar natur Crist, gan lunio'r credo enwog sy'n ei gydnabod 'o'r un deunydd â Duw,' gan roi statws cyfartal i'r Tad a'r Mab. Byddai pobl fel Arius, oedd yn gwadu hynny, bellach yn hereticiaid.



Sawru o'r stanc

Er bod Cystennin wedi gwahardd erlid Cristnogion, roedd gorfodi un ffordd o greu yn sawru o'r stanc. Trwy wneud un ffurf benodol o Gristnogaeth yn rhan o'r wladwriaeth, ar hyd y canrifoedd byddai'r Cristion oedd yn meiddio herio'r eglwys wladol trwy greu yn Iesu Grist mewn ffordd wahanol, hefyd yn herio'r frenhiniaeth ac felly'n euog o deyrnfradwriaeth. Y gosb, rhan amlaf, oedd marwolaeth - a hynny mewn ffyrdd eithriadol o erchyll a chreulon. Cafodd yr Annibynnwr John Penri ei grogi yn Llundain, yr Esgob Protestannaidd Robert Ferrar ei losgi'n fyw wrth y stanc tu fas i gastell Caerfyrddin, a'r Pabydd Richard Gwyn ei hanner-grogi a'i diberfeddu yn Wrecsam. Cristnogion bob un, yn cael eu lladd gan Gristnogion eraill.

Gwaddol Cystennin

Beth yw'r ddeddfryd ar Gystennin felly? I'r Eglwys Uniongedd, mae e'n sant. Gwelir delweddau ohono mewn lluo o eglwysi. Ond i eraill bu Cystennin yn gyfrifol am gychwyn proses o wyrdroi'r ffydd a'r eglwys Gristnogol i fod yn rhywbeth nad oeddent cynt, yn gyfryngau cred a fyddai'n ddieithr iawn i Iesu o Nasareth. Mae Edward D. Andrews yn academydd Cristnogol o'r radd uchaf. Yn ogystal â bod yn awdur toreithiog, Andrews oedd prif gyfieithydd y Fersiwn Safonol Americanaidd Diwygiedig o'r Beibl. Dyma'i farn e am rôl Cystennin: 'Christianity was now entering the realms of position, power, and wealth for its leaders. This was not the Christianity of the first and second century. It had chosen to become a part of the world, to such an extent, there was no difference. It had left the love it had at first, the teachings of Christ. As a result, Christianity was fused with the world of government and paganism. The Kingdom of Christ was moved into becoming a kingdom of this world.'

Ganrifoedd lawer ar ôl oes Cystennin Fawr, byddai Anghydfurfwyr, yn wyneb erledigaeth chwerw yn aml, yn ymdrechu i ysgaru ein ffydd a'n cred o'r briodas rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth. Yng Nghymru, fe ddatgysylltwyd y ddau yn 1920. Ond fel cawsom ein hatgoffa ar ddydd coroni'r Brenin Charles III, mae Eglwys Lloegr yn rhan annatod o'r sefydliad Prydeinig o hyd, trefn a fyddai wrth fodd Cystennin Fawr - yr ymerawdwr Rhufeinig cyntaf i wisgo coron gul (*diadem*) o aur a gemau gwerthfawr. Tybed beth fyddai barn y gŵr a wisgodd goron ddrain am hynny?

parhad ar dudalen nesaf

Barn Annibynnol

'Nid doeth ni ddarlleno'

Wrth ymweld â chartref ffrind yn ddiweddar cynhesais yn fawr at ddihareb arall yn yr un cyd-destun sef, 'Gorau cyfaill, llyfr da.' Yn ddi-ddorol iawn, ac yn



awgrymog iawn, roedd y cymal yn eich gwyllo ac yn siarad gyda chi wrth ymyl y teledu yn ystafell fyw y cartref! Ie, gallwn dreulio oriau yn gorweddian o flaen y teledu, ond does dim i'w gymharu â threulio amser yn cydio mewn llyfr da a'i ddarllen. Ac i minnau ar hyn o bryd llyfr rwy'n ei gael yn gyfaill gwirioneddol yw'r gyfrol *Gwerth y Funud Dawel* sef casgliad o fyfyrddodau gwreiddiol o eiddo y diweddar Elfed ap Nefydd Roberts ac a ddetholwyd gan Olaf a Helen Davies, gyhoeddwyd gan *Gyhoeddiadau'r Gair* yn 2021. Ac nid cyfrol mohoni i'w darllen yn gyflym o glawr i glawr megis darllen nofel neu gyfrol hanesyddol. Darllen dogn, un ysgrif ar y tro'n ddyddiol rwyf yn ei wneud, gyda'm defosiwn beunyddiol. Ac er mai dim ond cwarter o'r ysgrifau rwyf wedi eu darllen mor belled, rhaid cyfaddef bod y gyfrol hon gyda'r gorau a'r mwyaf ei blas rwy'n cael ei darllen ers meitin. Mae maeth i'r meddwl sy'n eich syfrdanu ym mhob ysgrif.

Roedd Elfed ap Nefydd Roberts wrth

rannu *Munud i Feddwl* ar Radio Cymru, fel yn ei ysgrifau mewn gwahanol bapurau, yn feistr ar fynegi ei farn a thraethu ar bynciau amserol y dydd, a gogoniant ei ysgrifau yw eu bod yn para mor ffres, amserol a pherthnasol a phan ysgrifennwyd hwy ddegawdau'n ôl. Ysgrifau ar bynciau amrywiol yn canmol cyfraniadau enwogion ar adeg eu marwolaeth, ysgrifau yn dangos swmp aruthrol ei ddarllen a'i feddwl treiddgar i fynegi, er enghraifft, werth nofelau pwysig, a'i sylwebu ar faterion gwleidyddol y dydd. 'A ddarlleno ystyried' ac fe gaiff yntau ac eraill lefaru eto.

Plant yn y canol

Hoffais ysgrifau lle traetha ar bwysigrwydd rhoi plentyn yn y canol. Ysgrifau hanesyddol yn ymwneud â'r byd gwleidyddol yn eu dydd megis awydd Tony Blair yn pledio sosialaeth plentyn-ganolog yn 1995 ac ymddangosiad dau blentyn ar y llwyfan gwleidyddol a chyhoeddus adeg ymweliad yr Arlywydd Bill Clinton â Gogledd Iwerddon ddiwedd yr un flwyddyn. Trwy grynhoi yr hyn a rannodd roedd Elfed yn ein cael i weld mawredd Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Ie, o gydymdeimlo gyda'r plant sy'n dioddef fwyaf pan fod pethau'n mynd o chwith yn ein cymdeithas, o roi'r flaenoriaeth i feddwl am les ein plant, mae 'rhoi'r lle priodol i'r teulu, addysg, iechyd ac i werthoedd moesol' yn dilyn wedyn yn ddi-oed, gyda gobaith am wella eu byd a'n cymdeithas.

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Ac oni ddylem fod yn ddiolchgar yng

nghysgod arlwy flynyddol Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn Llanymddyfri wythnos ddiwethaf bod ein plant yn cael lle mor ganolog yn ein gwlad. Y mae hyn yn peri i ni ofyn 'a yw'n plant yn cael y lle haeddiannol yn ein heglwysi?' Ac fe all Gogledd Iwerddon gyda'i phoblogaeth sy'n dyheu am arweiniad gan eu gwleidyddion yn Stormont, ddysgu eto wrth gael eu hatgoffa am ymweliad dau blentyn ar y llwyfan 'nôl yn 1995; un o gefndir Catholig a'r llall yn Brotestant, yn cydio law yn llaw ac un ohonynt yn dweud 'Yr ydw i yn byw mewn ardal gymysg o Gatholigion a Phrotestaniaid. Erbyn hyn rydan ni'n medru chwarae efo'n gilydd, oherwydd nad oes dim saethu na bomio, ac rydw i'n gobeithio y bydd hi'n para felly.' Pa ryfedd ar y pryd yn Belfast, adeg ei ymweliad, bod Bill Clinton wedi cyfaddef: 'Y mae popeth oedd angen ei ddweud wedi ei ddweud.' Gwir y dywedodd Iesu, 'Heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas Dduw.' Oes mae angen ein plygu, diwygio a blaenoriaethu.

Brecwast am ddim i blant ysgol

A diolch am neges Heddwch ac Ewyllys Da plant ac ieuencid Cymru oedd yn ein hatgoffa bod yn rhaid dadlennu a gwrthwynebu pob casineb hiliol mewn cymdeithas. Y mae'n braf meddwl hefyd bod pob plentyn yn ein hysgolion cynradd, trwy'r cytundeb rhwng Llywodraeth Lafur Cymru â Phlaid Cymru, i gael brecwast yn rhad ac am ddim, beth bynnag eu cefndir cymdeithasol. Rwy'n paratoi pererindod ar hyn o bryd i bobl Gofalaeth Bröydd Myrddin i ardal y Preselau. Cawn weld cofeb Joseph James, ymhlith eraill, un o'r cewri ymgyrchodd i sicrhau na fyddai'r Preselau yn cael ei droi'n faes ymarfer i'r fyddin wedi'r Ail Ryfel Byd. Ac o ddarllen cofiant y diweddar Ieuan Davies iddo – *Joseph James* – braf oedd darllen am ei ddeurder fel disgybl-athro yn nhymor ei ieuencid yn Nowlais, yn tosturio wrth blant ei ddsbarth. Gofynnodd un bore: 'Sawl un ohonoch chi sy wedi dod i'r ysgol heb frecwast bore 'ma?' Cododd dwylo pob plentyn a heb betruso, heb ymgynghori â'r prifathro, na neb arall, arweiniodd y plant fel byddin i gyfeiriad y gegin a'r cawl, ac meddai 'Sut alle plant ddysgu â'u bolie bach nhw'n wag, w?'

Ac o ddarllen mewn hanes, ac arsylwi a dadansoddi materion cyfoes ein dyddiau, megis y gwnaeth Elfed yn ei ysgrifau yn y casgliad *Gwerth y Funud Dawel*, cawn arweiniad a gwersi sut mae gwneud, gan fod yn berthnasol a phroffwydol. Ac ie, 'A ddarlleno, ystyried.'

Emyr Gwyn Evans

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

CYSTENNIN FAWR – parhad

Caergystennin a Chaernarfon

Yn y flwyddyn 323 fe drefnodd Cystennin symud canolfan yr Ymerodraeth o Rufain i ddinas hynafol Byzantium (Istanbul bellach), sydd ger y ffin rhwng Ewrop ac Asia. Codwyd mur o'i chwmpas a'i hail-enwi'n Constantinople, sef Caergystennin. Yn y cyfamser, aeth ei fam Helena i Balestina, a chanfod 'gwir groes Iesu' wrth adeiladu eglwys ar Golgotha. Yn fuan ar ôl dyddiau Cystennin fe wnaeth yr Ymerawdwr Theodosius II godi muriau sy'n bedair milltir o hyd gyda bron i gant o dyrrau uchel i amddiffyn Caergystennin. Mae'r muriau rhyfeddol yn sefyll hyd y dydd heddiw, ac yn ystod rhyfel cyntaf y Gwllff yn 1992, fe wnes i dreulio diwrnod yng Nghaergystennin ar ôl bod yn ffilmio eitemau am y Cwrdaid yn Nhwrci. Profiad gwefreiddiol oedd sefyll yng nghysgod y muriau anferth, sy'n adlais o gastell Caernarfon, a godwyd fel efelychiad bwriadol o furiau Caergystennin gan Edward Iaf. Adeilad trawiadol hefyd yw eglwys yr Hagia Sophia (sydd nawr yn fosg) a adeiladwyd yn y flwyddyn 537. Mae'r ddinas yn ganolfan ysbrydol i Eglwys Uniongred y Dwyrain.



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog

DYDD MERCHER, 28 Mehefin 2023

- 1.30 CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Gorrlewin Caerfyrddin 2022
(y Llyfr Gwyrdd)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb *
Croesawu darpar-Lywydd newydd yr Undeb *
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2024
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
Y Genhadaeth Ddigidol
- 3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr
- 4.00 'Change and Continuity – Looking back or looking ahead? A Postcolonial conversation about Mission' ***
Anerchiad gan yr Athro Anthony Reddie
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams
- 5.30** Egwyl
- 6.00** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD: Beirdd ar y Ffin ***
Noson yng nghwmni beirdd lleol

DYDD GWENER, 30 Mehefin 2023

- 9.30** Defosiwn yng ngofal y Parchg Trefor Jones-Morris *
- 10.00 Cyfarfod Hanes: 'Damwain a hap, ac athrylith Richard Price (1723–91)' ***
Yr Athro Gareth Ffowc Roberts
Cadeirydd: Miss Joan Thomas
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 Lansio Apêl Cymorth Cristnogol: Ffynhonnau Byw ***
- 12.00 CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Parchg Beti-Wyn James
Argraffiadau'r Llywydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb,
Miss Meryl James
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Eryn
Trosglwyddo'r Beibl i'r llywydd newydd
Gweddi: Parchg Robin Wyn Samuel
Eryn
Y Fendith
- 1.00** Cinio ac ymadael

DYDD IAU, 29 Mehefin 2023

- 9.30 CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Y Tyst
Etholiadau:
• 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
• Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
• cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
- 12.00** Cynllun Hyfforddi: Carwyn Siddall, Cydlynnydd
Hyrwyddo Gweinidogaethau
Y Panel Diogelu: Julie Edwards a Sian Jones
- 1.00** Cinio
- 2.00 CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *
Penderfyniadau:
Derbyn gweddill cofnodion y Llyfr Glas
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith
- 3.30** Te/coffi
- 4.00 Cyfarfod Heddwch: 'Beth ydy rôl Cymru yn y mudiad heddwch rhyngwladol yn yr G21ain?' ***
Mabon ap Gwynfor AS
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor
- 5.00** Egwyl
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, *
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Galwad i addoli
Eryn
Darllen: Parchg Aled Davies
Gweddi: Parchg Dr Alun Tudur
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Eryn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Trefor Jones Morris
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Eryn
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones
Eryn
Y Fendith

Dangosir Cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

* Caiff y digwyddiadau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan
annibynwyr.cymru